# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 9 Tachwedd 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

# 101(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Cwnsler Cyffredinol ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am streic posib gan nyrsys?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Codi'r bar: Sicrhau dyfodol y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu

(60 munud)

**NDM8120** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Codi'r bar – Sicrhau dyfodol y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Gorffennaf 2022.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2022.

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – Adroddiad Blynyddol 2021/22

(60 munud)

**NDM8119** Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Cynnig bod yn Senedd:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gyfer 2021/22, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Hydref 2022.

## 8 Dadl Plaid Cymru – Effaith fyd-eang defnydd domestig

(60 munud)

**NDM8121** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Gymru ymsefydlu fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang;

b) y gellir priodoli mwy na 50 y cant o goedwigoedd a gaiff eu colli yn fyd-eang a'r tir a gaiff ei drawsnewid i gynhyrchu nwyddau amaethyddol a chynhyrchion coedwigaeth y mae defnyddwyr yn galw amdanynt;

c) bod ardal sy'n cyfateb i 40 y cant o faint Cymru yn cael ei defnyddio dramor i dyfu llond llaw yn unig o nwyddau sy'n cael eu mewnforio i Gymru (palmwydd, soi, cig eidion, cacao, rwber naturiol, lledr, pren, papur a mwydion);

d) bod ardaloedd eang dramor yn cael eu dinistrio i greu nwyddau a anfonir i Gymru, gyda chanlyniadau trychinebus gan gynnwys cam-drin pobl frodorol, llafur plant, a cholli bioamrywiaeth.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

a) i fod yn atebol am ac adrodd yr allyriadau sylweddol o nwyon tŷ gwydr a achosir gan Gymru dramor o ganlyniad i'r datgoedwigo a'r golled mewn cynefin sy'n gysylltiedig â mewnforio nwyddau i Gymru;

b) i gryfhau ei chontract economaidd - sy'n datblygu perthynas â busnes o amgylch twf ac arferion cyfrifol - i'w gwneud yn ofynnol i lofnodwyr ymrwymo i gadwyni cyflenwi nad ydynt yn cynnwys datgoedwigo, trosi ac ecsbloetio cymdeithasol;

c) i ddatblygu system fwyd fwy hunangynhaliol i Gymru drwy ddatblygu llwybr tuag at system fwyd sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac sy'n rhoi ffynhonnell gynaliadwy o fwyd i gymunedau a fyddai'n cynnwys:

(i) gwrthdroi colli capasiti prosesu lleol;

(ii) gyrru cadwyni cyflenwi lleol;

(iii) blaenoriaethu mewnforio nwyddau cynaliadwy yn unig o dramor; a

(iv) helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd a diffyg maeth.

d) i ddefnyddio ysgogiadau caffael i greu gofyniad i gadwyni cyflenwi fod yn rhydd o ddatgoedwigo, trosi ac ecsbloetio cymdeithasol, fel rhan o'r newid i ddefnyddio nwyddau cynaliadwy sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol;

e) i gefnogi ffermwyr Cymru i roi'r gorau i ddefnyddio bwyd anifeiliaid da byw sy'n cael ei fewnforio sy'n gysylltiedig â datgoedwigo a thrawsnewid cynefinoedd dramor;

f) i gefnogi prosiectau a mentrau rhyngwladol gyda'r nod o gadw ac adfer coedwigoedd yn y prif wledydd sy'n cynhyrchu nwyddau; a

g) i sicrhau ei bod yn hyrwyddo cytundebau masnach newydd a fydd yn gwarantu safonau amgylcheddol a hawliau dynol uchel, yn enwedig o amgylch datgoedwigo, ynghyd â mesurau gorfodi llym.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

i gyflwyno siarter bwyd a diod lleol i annog siopau, caffis a bwytai i werthu bwyd a diod sy'n dod o ffynonellau lleol yn hytrach na bwyd a diod wedi'i fewnforio

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8115** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynhyrchion mislif am ddim: yr angen i ddeddfu er mwyn sicrhau bod gan bawb sydd eu hangen fynediad atynt, lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 2022

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 02/11/2022 i'w hateb ar 09/11/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ58649 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ynglŷn â dyfodol y tocyn croesawu sy'n darparu teithiau bws a threnau am ddim i ffoaduriaid?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

2 OQ58675 **(e)**

Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei darparu ar gyfer cartrefi oddi ar y grid sydd mewn tlodi tanwydd?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

3 OQ58661 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn annog dynion a bechgyn yng Nghymru i wneud addewid y Rhuban Gwyn?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ58647 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn sicrhau bod y gwasanaeth tân o fudd i bobl Gorllewin De Cymru?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ58641 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran taliad incwm sylfaenol cyffredinol ar gyfer pobl ifanc i drosglwyddo allan o ofal?

**Peter Fox** *Mynwy*

6 OQ58650 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella'r gefnogaeth i ddynion sy'n profi cam-drin domestig?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

7 OQ58664 **(e)**

Sut mae'r asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer ehangu cam 2 y ddarpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg yn cymharu â'r asesiad a gwblhawyd ar gyfer cam 1?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

8 OQ58666 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad am drafodaethau diweddar efo Llywodraeth y DU am gaethwasiaeth fodern?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

9 OQ58677 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynglŷn â chyflogau ac amodau gweithwyr y Post Brenhinol yng Nghymru?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

10 OQ58638 **(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella cydlyniant cymunedol yng Ngorllewin De Cymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

11 OQ58665 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2021/22?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

12 OQ58673 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith anghydfod y Post Brenhinol ar ei gweithwyr a'i gwasanaethau yng Nghymru?

## CWNSLER CYFFREDINOL A GWEINIDOG Y CYFANSODDIAD

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

1 OQ58678 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael ynglŷn ag effaith y newidiadau diweddar yn Llywodraeth y DU ar y setliad datganoli?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

2 OQ58643 **(w)** Tynnwyd yn ôl

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi diweddariad ar gynnydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag argymeillion Comisiwn Thomas sy'n ymwneud â materion datgonoledig?

3 **Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

OQ58676 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion eraill y gyfraith ynglŷn â'r amserlen ar gyfer Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)?

4 **Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

OQ58662 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion eraill y gyfraith ynglŷn â sicrhau cyfiawnder i'r 97 o ddioddefwyr trychineb Hillsborough?

5 **Alun Davies** *Blaenau Gwent*

OQ58668 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion eraill y gyfraith ynglŷn ag effaith y Bil Streiciau Trafnidiaeth (Lefelau Gwasanaeth Lleiaf) ar y setliad datganoli?

6 **Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

OQ58657 **(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol egluro pa gyngor cyfreithiol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i geisio mewn perthynas â chyflwyno cwota rhyw ar gyfer etholiad Senedd Cymru yn 2026?

7 **Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

OQ58644 **(w)** Tynnwyd yn ôl

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi diweddariad am gynnydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â diwygio'r system tribiwnlysoedd Cymreig?

8 **Alun Davies** *Blaenau Gwent*

OQ58670 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion eraill y gyfraith yn y DU am effaith Bil Protocol Gogledd Iwerddon ar gyfansoddiad y DU?

9 **Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

OQ58656 **(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu sut y bydd y Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) arfaethedig yn helpu i wella hygyrchedd cyfraith Cymru?

10 **Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

OQ58655 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r goblygiadau cyfreithiol i Gymru o Fil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol Llywodraeth y DU?

11 **Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ58639 **(e)**

Sut mae'r Cwnsler Cyffredinol yn sicrhau bod unigolion yn cael cyfleoedd cyfartal o fewn y system gyfiawnder yng Nghymru?

## COMISIWN Y SENEDD

1 **Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

OQ58663 **(e)**

Sut mae'r Comisiwn yn annog staff i wneud addewid y Rhuban Gwyn?

2 **Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

OQ58658 **(e)**

Pa feini prawf hanfodol ar wahân i'r gost a ddefnyddiodd y Comisiwn i ddewis y contractwr newydd ar gyfer ffreutur y Senedd?

3 **Alun Davies** *Blaenau Gwent*

OQ58669 **(e)**

A wnaiff y Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu TGCh ar gyfer Aelodau yn y Siambr?

4 **Peter Fox** *Mynwy*

OQ58645 **(e)**

Pa gamau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd i gefnogi aelodau staff yn ystod yr argyfwng costau byw presennol?